Rhif: WG30159

Llywodraeth Cymru
# Dogfen Ymgynghori

Adolygiad o Reoliadau Asesu'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2007

**Date of issue: 27 Hydref 2016**
**Responses by: 5 Ionawr 2017**

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

OGL © Crown Copyright

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae Rheoliadau Asesu'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2007 (SI 2007/2933) yn darparu gwarchodaeth amgylcheddol rhag y gwaith gwella amaethyddol a wneir ar dir lled naturiol a thir heb ei drin yng Nghymru.<br><br>Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich safbwyntiau ar newidiadau arfaethedig i Reoliadau Asesu'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2007 er mwyn gweithredu Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2011/92/EU ar Asesu'r Effaith Amgylcheddol. |
| **Sut i ymateb** | Cyflwynwch eich ymatebion i'r cwestiynau a ofynnir erbyn 5 Ionawr 2017 gan ddefnyddio un o'r ffyrdd canlynol:<br><br>**Drwy E-bost:**<br>EIAResponses@wales.gsi.gov.uk<br><br>**Drwy'r post:**<br>Tîm Datblygu Deddfwriaeth, Llywodraeth Cymru, Dwyrain Ffordd Spa, Llandrindod, Powys LD1 5HA<br><br>Wrth ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu a ydych yn cynrychioli safbwyntiau sefydliad.<br><br>Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad mwy, eglurwch pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli ac, os yn gymwys, sut y casglwyd safbwyntiau'r aelodau. |
| **Mwy o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd gwahanol o'r ddogfen hon ar gael.** |
| **Manylion cysylltu** | I gael mwy o wybodaeth:<br><br>Ryan Davies<br>Tîm Datblygu Deddfwriaeth<br>Amaethyddiaeth - Adran Cynaliadwyedd a Datblygu<br>Llywodraeth Cymru<br>Dwyrain Ffordd Spa<br>Llandrindod<br>Powys<br>LD7 1PU<br><br>01597 828303 |

**Diogelu Data**

Sut fydd y safbwyntiau a'r wybodaeth fyddwch yn eu rhoi i ni yn cael eu defnyddio?

Bydd unrhyw ymateb fyddwch yn ei anfon atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â'r materion sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad hwn. Efallai y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn ei weld hefyd er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Efallai y byddwn hefyd yn cyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol. Os nad ydych eisiau i'ch enw neu eich cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb. Yna byddwn yn dileu'r wybodaeth honno.

Efallai y bydd enwau a chyfeiriadau yr ydym yn eu dileu yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, ond nid ydym yn credu y bydd hynny'n digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu'r cyhoedd i ofyn am gael gweld gwybodaeth a ddelir gan nifer o gyrff cyhoeddus, yn cynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth na chyhoeddwyd. Fodd bynnag, mae'r ddeddf hefyd yn ein caniatáu i beidio â datgelu gwybodaeth o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth nad ydym wedi ei datgelu, bydd raid i ni benderfynu ei rhyddhau neu beidio. Os bydd rhywun wedi gofyn am beidio cyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, mae honno'n ffaith bwysig y buasem yn ei hystyried. Fodd bynnag, ar brydiau efallai bydd yna resymau pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad person, er iddo ofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Buasem yn cysylltu â'r person er mwyn gofyn iddo beth yw ei safbwyntiau cyn i ni benderfynu'n derfynol ynglŷn â datgelu'r wybodaeth.

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae Rheoliadau Asesu'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2007 ("Rheoliadau AEA") yn rhan allweddol o warchod safleoedd cynefinoedd ffermdir rhag gweithgaredd amaethyddol niweidiol, ac o warchod adnoddau naturiol gwerthfawr Cymru drwy hynny. Mae amcanion Rheoliadau AEA yn cyfrannu tuag at wireddu nifer o nodau a nodir gan Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn arbennig creu Cymru sy'n iachach, yn fwy cydnerth ac yn gyfrifol yn fyd-eang.

1.2. Gall ardaloedd amaethyddol na reolwyd yn ddwys am gyfnod fod yn safleoedd cynefinoedd lled naturiol pwysig, sy'n gartref i rywogaethau amrywiol o blanhigion ac anifeiliaid sydd yn aml yn unigryw ac anamnewidiadwy yng nghyd-destun asedau naturiol Cymru, Mae'r cynefinoedd yma nid yn unig yn bwysig ar gyfer bioamrywiaeth ond maent hefyd yn cynnig cyfleoedd at ddibenion hamdden a gallant addysgu'r cenedlaethau iau am werth ein hamgylchedd.

1.3. Mae dulliau ffermio traddodiadol wedi bod yn prinhau ers blynyddoedd a bu cynnydd dramatig mewn dwysáu amaethyddol sydd wedi creu dirywiad sydyn yn y bywyd gwyllt sy'n gysylltiedig â'n hamgylchedd a ffermir. Mae gosod gwrychoedd, cnydio cylchdro ac amrywiol, pori tymhorol a gadael sofl y gaeaf a ffiniau caeau yn rhai o'r dulliau ffermio sydd wedi prinhau yn ystod y blynyddoedd diweddar, er bod hynny'n fanteisiol i fywyd gwyllt, yr amgylchedd a chynhyrchu bwyd.

1.4. Mae ffermwyr yn eithriadol bwysig o ran helpu i warchod ein cefn gwlad a'n bywyd gwyllt. O'i reoli'n sensitif, gall ffermdir gynnal amrywiaeth o fflora a ffawna sy'n bwysig i'r amgylchedd. Wrth i'n cynefinoedd naturiol ddod yn fwy tameidiog, gall ffermdir a reolir yn dda ddarparu dolen hollbwysig rhwng safleoedd amgylcheddol bwysig, helpu bywyd gwyllt i symud o gwmpas yn rhydd a chael mynediad i glytwaith anferth o ofodau naturiol.

1.5. Mae Rheoliadau AEA yn trosi ymrwymiadau rhyngwladol o ran sicrhau bod unrhyw brosiectau sy'n debygol o effeithio ar yr amgylchedd yn cael eu hasesu cyn iddynt gychwyn. Mae'r safleoedd sy'n rhan o gylch gwaith Rheoliadau AEA yn bwysig yng nghyd-destun ehangach gwarchod bioamrywiaeth ar draws y DU ac Ewrop a hyrwyddo Cymru fel gwlad sy'n gyfrifol yn fyd-eang. Mae arloesi deddfwriaeth sylfaenol megis Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn arwydd o wlad sy'n rhagweithiol ac yn flaenllaw o ran gwarchod yr amgylchedd, ac sy'n anelu at sicrhau bod Cymru yn lân, iach a chynaliadwy.

1.6. Amcan sylfaenol Rheoliadau AEA yw gwarchod safleoedd cynefinoedd arwyddocaol a thir sydd â gwerth amgylcheddol pwysig. Gall Rheoliadau AEA hefyd fod yn gymwys i dir sydd â gwerth archeolegol neu ddiwylliannol, oherwydd bod y safleoedd hynny yn rhan annatod o amgylchedd a thirwedd hanesyddol ehangach Cymru.

1.7. Mae Asesu'r Effaith Amgylcheddol (AEA) yn broses o gasglu gwybodaeth ac ymgynghori arno, mewn ffordd systematig, er mwyn hysbysu asesiad o'r effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol fydd yn deillio o waith gwella amaethyddol arfaethedig. Mae gwerthusiad AEA yn ystyried, (a) effeithiau prosiectau gwella amaethyddol arfaethedig (e.e. aredig ac ail hadu) ar dir lled naturiol a/neu dir heb ei drin a, (b) ailstrwythuro daliadau gwledig, drwy broses sgrinio a weithredir gan Lywodraeth Cymru.

1.8. Mae'r broses sgrinio yn darparu ar gyfer prosiectau amaethyddol nad ydynt yn effeithio'n arwyddocaol ar yr amgylchedd neu'r dirwedd o dan sylw, ac ar yr un pryd mae'n sicrhau gwarchodaeth i dir o bwysigrwydd amgylcheddol, hanesyddol neu ddiwylliannol.

1.9. Ers cyflwyno'r gyfundrefn AEA yn 2002 mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried dros 911 o geisiadau sgrinio, a rhoddwyd caniatâd i'r gwaith arfaethedig mewn 93% o'r achosion hynny. Mewn achosion o beidio â chydymffurfio â Rheoliadau AEA, mae gan Weinidogion Cymru'r pŵer i roi Hysbysiad Stopio ac Adfer gorfodol. Hefyd, mae methu â gwneud cais am sgrinio AEA yn achos o dorri gofynion Trawsgydymffurfio, a gall arwain at gosb ariannol.

1.10. Mae Rheoliadau AEA wedi asesu tua 10,000 hectar (ha) o dir amaethyddol, sy'n gyfystyr â thua 700 ha yn flynyddol ers 2002. Nid oedd yr holl dir yma yn gynefin, o ddiddordeb archeolegol, nac yn cynnal rhywogaethau o arwyddocâd cadwraethol mawr. Fodd bynnag, roedd tua 1,000 ha (dros 64 safle) yn '*debygol o fod ag effaith amgylcheddol arwyddocaol.*

1.11. Yn ystod yr un cyfnod, bu i Lywodraeth Cymru ystyried cyfanswm o 583 o achosion gorfodi. Dim ond ar gyfer safleoedd arwyddocaol, oedd er lles cenedlaethol a ble'r oedd adferiad yn bosibl, y rhoddwyd Hysbysiadau Gorfodi. Mae cymhwyso cymesur yn golygu y rhoddwyd Hysbysiadau Stopio ar gyfer llai na 7% a Hysbysiadau Adfer ar gyfer 8% o'r achosion yr ymchwiliwyd iddynt.

1.12. Ar draws ceisiadau sgrinio ac achosion gorfodi, roedd bron i 90 o'r achosion (tua 270 ha) yr ymchwiliwyd iddynt o arwyddocâd cenedlaethol pwysig. Ar gyfartaledd roedd maint nifer o'r ardaloedd cenedlaethol bwysig yma yn 3ha, ac roeddent wedi'u gwasgaru ar draws nifer o safleoedd. Mae hyn yn tanlinellu'r posibilrwydd o golli cynefinoedd os bydd prosiectau dwysáu amaethyddol graddfa fechan na reolir yn cael eu cynnal. Mae Rheoliadau AEA yn chwarae rôl allweddol o ran rheoli hyn, gan weithio'n agos â ffermwyr, tirfeddianwyr/rheolwyr tir a chyrff cadwraethol.

1.13. Mae proses sgrinio AEA yn cael ei chymhwyso ar draws yr Undeb Ewropeaidd o dan ofynion Cyfarwyddeb AEA. Diwygiwyd Cyfarwyddeb AEA gan Gyfarwyddeb 2014/52/EU ("Cyfarwyddeb 2014") yn 2014 er mwyn gwella gwarchodaeth i fioamrywiaeth,

cryfhau'r broses sgrinio, gwella cydlyniant a synergeddau rhwng deddfwriaeth amgylcheddol a lliflinio gofynion presennol .

## 2. Goblygiadau refferendwm yr UE

2.1. Canlyniad y refferendwm a gynhaliwyd ar 23 Mehefin oedd y dylai'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n bwysig cofio bod y DU cyn ac yn ystod y trafodaethau yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau'r UE, sefydliadau'r UE ac i gydymffurfio â chyfraith yr UE. Felly nes y cwblheir y trafodaethau mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru lunio deddfwriaeth er mwyn trosi gofynion Cyfarwyddeb AEA 2014.

## 3. Yr Angen i Newid

3.1. Mae'r gyfundrefn AEA yr ydym yn ei gweithredu ym maes amaethyddiaeth yng Nghymru yn helpu i ddarparu'r warchodaeth angenrheidiol i gynefinoedd lled naturiol a rhywogaethau a warchodir.

3.2. Mae'r gyfundrefn AEA yn sefydledig ym maes amaethyddiaeth yng Nghymru. Fodd bynnag, mae angen adolygu parhaus er mwyn sicrhau bod y Rheoliadau AEA presennol yn ddigonol ar gyfer cyflawni amcanion amgylcheddol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae profiad mewn perthynas â gorfodi'r gyfundrefn AEA a chyfraith achos diweddar wedi amlygu meysydd ble gellid cyfnerthu Rheoliadau AEA mewn perthynas â gwarchod yr amgylchedd, a lliflinio gweithdrefnau presennol ar yr un pryd.

3.3. Bwriad yr ymgynghoriad yw adeiladu ar y system bresennol ac nid gwneud newidiadau sylweddol i'r gyfundrefn AEA amaethyddol sefydledig a chyfarwydd iawn. Mae'r newidiadau arfaethedig a amlinellir yn y ddogfen hon wedi'u halinio ag agenda Hwyluso'r Drefn Llywodraeth Cymru. Bwriad y cynigion yw gwella lefel y warchodaeth amgylcheddol ar draws Cymru, gan geisio sicrhau bod penderfyniadau busnes mewn perthynas â buddsoddiadau cyhoeddus a phreifat yn gadarnach, yn fwy rhagweladwy a chynaliadwy yn yr hirdymor, ac yn cyfateb i'n hamcanion ehangach.

3.4. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn ei gwneud yn ofynnol i bob Aelod Wladwriaeth fod wedi trosi gofynion newydd y Gyfarwyddeb AEA erbyn 16 Mai 2017. Mae gofynion gorfodol a dewisol yn cael eu harchwilio'n fanylach yn y ddogfen hon.

## 4. Ein Sefyllfa Bresennol

4.1. Mae Rheoliadau AEA yn gwarchod tir lled naturiol a thir heb ei drin yng Nghymru, sy'n gartref i nifer o rywogaethau fflora a ffawna prin yn eu cynefinoedd naturiol.

4.2. Mae'r broses yn gweithio fel hyn:

- Os bydd y tir yn cynnwys llai na 25% o rywogaethau amaethyddol wedi'u gwella (er enghraifft rhygwellt parhaol a meillion) ac;

- Mae'r gwaith arfaethedig at ddibenion dwysáu amaethyddol (ee, aredig ac ail hadu);

- Mae'n rhaid i reolwyr tir gwblhau ffurflen gais Sgrinio er mwyn derbyn y penderfyniadau Sgrinio angenrheidiol gan Lywodraeth Cymru cyn i'r gwaith fynd rhagddo.

4.3. Hefyd, mae angen penderfyniad sgrinio ar gyfer gwaith ailstrwythuro arfaethedig ar raddfa fawr. Fodd bynnag, mae hyn yn gymwys i unrhyw fath o dir, ac nid tir lled naturiol a thir heb ei drin yn unig.

4.4. Mae cwblhau proses Sgrinio yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru bod ffermwr neu reolwr tir yn gobeithio gwneud gwaith fydd efallai'n destun Rheoliadau AEA. Yna bydd y tir yn cael ei asesu a bydd penderfyniad yn cael ei wneud o fewn 35 diwrnod. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cofrestr gyhoeddus sy'n cynnwys yr holl geisiadau sgrinio a chanlyniadau'r broses yn: http://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/conservationbiodiversity/eiahome/publicregister/?lang=en

4.5. Mae'r diagram o'r pecynnau canllawiau AEA presennol isod yn dangos sut mae'r broses AEA yn cael ei gweithredu:

**Sgrinio**

Dyma'r broses ymgeisio wreiddiol. Mae sgrinio'n penderfynu a yw gwaith yn debygol o gael effaith amgylcheddol arwyddocaol. Nid yw'r rhan fwyaf o geisiadau'n debygol o berthyn i'r categori hwn. Ychydig o geisiadau sy'n mynd y tu hwnt i'r cam hwn ac mae'r mwyafrif yn cael symud ymlaen yn y pwynt hwn. Mae'r broses am ddim a rhaid gwneud penderfyniadau o fewn 35 diwrnod.

↓

**Cwmpasu**

Dim ond os yw (a) y gwaith yn debygol o gael effaith amgylcheddol arwyddocaol a (b) os ydych chi'n ystyried cynhyrchu Datganiad Amgylcheddol mae hyn yn berthnasol. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â chi i drafod y materion amgylcheddol mwyaf arwyddocaol.

↓

**Datganiad Amgylcheddol**

Mae hwn yn adroddiad y mae'n rhaid i chi ei baratoi. Mae'n esbonio'n llawn y materion amgylcheddol allweddol o'r cam cwmpasu. Bydd yn cynnwys trafodaeth ar sut mae'r gwaith arfaethedig yn effeithio ar yr amgylchedd ac unrhyw fesurau lliniaru a fydd yn cael eu rhoi ar waith. Bydd y datganiad hwn hefyd yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'n penderfynu a fydd y gwaith yn cael effaith amgylcheddol arwyddocaol ac a oes modd rhoi caniatâd i fwrw ymlaen.

4.6. Fel y nodwyd eisoes, mae Rheoliadau AEA yn cael eu cymhwyso'n gymesur yng Nghymru. O'r holl geisiadau sgrinio a ystyriwyd hyd yma, bu i Lywodraeth Cymru ofyn am Ddatganiad Amgylcheddol ("DA") ar gyfer 7% o'r achosion yn unig, a dim ond pan ystyriwyd y byddai'r effaith ar yr amgylchedd yn arwyddocaol.

## 5. Pam ein bod yn Cynnig Newid?

5.1. Ar 14 Mai 2014, daeth Cyfarwyddeb 2014 i rym yn dilyn adolygiad o'r gyfundrefn AEA gan y Comisiwn Ewropeaidd. Yng nghyd-destun Gwell Rheoleiddio, nodwyd bod y Gyfarwyddeb AEA o bosibl yn offeryn symleiddio. Ar yr un pryd, mae Cyfarwyddeb 2011/92/EU yn amcanu at atgyfnerthu ansawdd y weithdrefn AEA a gwella cydlyniant a synergeddau gyda deddfwriaeth a pholisïau eraill yr UE, yn ogystal â'r polisïau a'r strategaethau hynny a ddatblygwyd gan Aelod Wladwriaethau unigol.

5.2. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno dilyn y cyfarwyddyd a roddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd o ran lliflinio gweithdrefnau presennol a gwella'r warchodaeth a roddir i safleoedd cynefinoedd ffermdiroedd. Mae'r ymgynghoriad yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru ystyried newidiadau er mwyn egluro darpariaethau presennol, myfyrio ar newidiadau a heriau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol parhaus ac alinio ein Rheoliadau AEA ag egwyddorion Hwyluso'r Drefn drwy gyflwyno mwy o hyblygrwydd i'r gyfundrefn.

5.3. Yn ystod y degawd diwethaf, mae materion amgylcheddol megis effeithlonrwydd a chynaliadwyedd adnoddau, gwarchod bioamrywiaeth a newid yn yr hinsawdd wedi dod yn gynyddol bwysig wrth ddatblygu a siapio polisïau'r Llywodraeth. Felly, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn chwarae ein rhan wrth ddatblygu gweithdrefn AEA sy'n ategu'r dyheadau hyn ac sy'n effeithio'n gadarnhaol ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth yng Nghymru, tra'n cefnogi diwydiant amaeth cynhyrchiol hefyd.

5.4. Mae'r ymgynghoriad hwn yn hysbysu ymgyngoreion am elfennau gorfodol Cyfarwyddeb 2014 yn ogystal â cheisio safbwyntiau ynglŷn â sut mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gweithredu'r gyfundrefn AEA yn y dyfodol. Bydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn yn helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynigion terfynol a chyflwyno newidiadau ar ffurf offeryn statudol.

## 6. Pwrpas yr ymgynghoriad

6.1. Mae'r papur ymgynghori hwn yn nodi cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer trosi darpariaethau Cyfarwyddeb AEA 2014 mewn perthynas â'r gyfundrefn AEA amaethyddol, yn ogystal â gwneud newidiadau eraill i Rheoliadau AEA. Mae'r ymgynghoriad isod y nodi ein cynigion ar gyfer y meysydd canlynol:

- Diffiniadau;
- Trothwyau;
- Penderfyniadau sgrinio;
- Opsiynau cwmpasu;
- Datganiadau Amgylcheddol ac Arbenigwyr Cymwys;
- Hysbysiadau Gorfodi;
- Gweithdrefnau apelio.

6.2. Mae yna feysydd eraill ble nad oes dewis gwirioneddol o ran sut y gellir gweithredu'r trosi (er enghraifft, dewis y meini prawf a ddefnyddir i benderfynu a yw prosiect yn gynwysedig yn yr AEA neu beidio) ac felly nid ydynt wedi eu cynnwys yn y papur ymgynghori hwn.

## 7. Diffiniadau

7.1. Er mwyn sicrhau bod Rheoliadau AEA yn addas i'r diben a'u bod yn ddealledig yn eang yn y diwydiant, mae angen i derminoleg fod yn glir a chryno. Hefyd, pan fo'n bosibl, mae'n hanfodol efelychu'r diffiniadau a ddefnyddir ym meysydd polisi eraill Rheoliadau AEA. Mae hyn yn unol â deilliannau adroddiad Hwyluso'r Drefn.

7.2. Bydd sicrhau defnyddio terminoleg gyson ar draws pob maes polisi yn golygu y bydd cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yn symlach ac yn llai amwys.

### <u>Tir Lled Naturiol</u>

7.3. Mae Rheoliadau sy'n gweithredu cymhwyso Cyfarwyddeb AEA yn ddomestig yn achos prosiectau amaethyddol arfaethedig ar dir led naturiol a/neu dir heb ei drin wedi bod mewn grym yng Nghymru ers 2002. Mae'r darpariaethau a'r diffiniadau allweddol yn y ddeddfwriaeth wedi aros yn ddigyfnewid i bob pwrpas ers hynny.

7.4. Mae Rheoliadau AEA yn gymwys i dir a ddosberthir fel tir lled naturiol neu dir heb ei drin. Nid yw Cyfarwyddeb AEA yn darparu diffiniad o dir lled naturiol / tir heb ei drin ond mae'n caniatáu i Aelod Wladwriaethau nodi'r diffiniad sydd fwyaf priodol a chymwys yn eu tiriogaethau. Mae'n bwysig cydnabod bod ardaloedd o dir lled naturiol naill ai wedi bod, neu yn ddarostyngedig i ryw fath o ymyrraeth ddynol drwy arferion ffermio. Mae dogfen *Dehongliad o ddiffiniadau categorïau prosiectau penodol atodiad I a II Cyfarwyddeb AEA* (Adran 2.3) y Comisiwn Ewropeaidd yn cydnabod hynny. Mae hefyd yn cydnabod bod "...*y term 'lled naturiol' yn debygol o fod yn gymwys i rannau helaeth o'r wlad, er bod i ba raddau y rheolir y tir hwnnw yn gallu*

*amrywio*." Mae'r rhan fwyaf o gynefinoedd Cymru wedi bod yn destun ymyrraeth ddynol i ryw raddau, ac o ganlyniad i hynny maent yn 'lled naturiol', yn hytrach na 'heb ei drin'.

7.5. Yng Nghymru mae'r diffiniad a ddefnyddir i benderfynu a yw tir yn ddarostyngedig i ddarpariaethau rheoliadau AEA yn gysylltiedig â phresenoldeb rhywogaethau amaethyddol a dyfir ar unrhyw safle penodol. Yn ôl Canllawiau AEA a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2008:

*"Ystyrir bod tir yn dir heb ei drin neu'n dir lled naturiol os yw'n cynnwys llai na 25% o rywogaethau amaethyddol wedi'u gwella sy'n arwydd bod y tir yn cael ei drin (er enghraifft rhygwellt a/neu feillion gwyn).*

7.6. Mae'r diffiniad uchod yn gymwys i bob rhywogaeth amaethyddol wedi'u gwella, ac nid y rhywogaethau dangosol yn unig a roddir fel enghreifftiau yn y canllawiau (rhygwellt a meillion gwyn). Datblygwyd y diffiniad gan arbenigwyr ecoleg ac amaeth, mewn ymgynghoriad ag asiantaethau statudol. Fe'i defnyddiwyd yng nghynllun amaeth-amgylcheddol Glastir, yn ogystal â nifer o gynlluniau rheoli tir cynaliadwy blaenorol.

7.7. Mae'r diffiniad o dir heb ei drin / lled naturiol yn gynwysedig mewn canllawiau yn unig ar hyn o bryd. Rydym yn cynnig gwneud hwn yn ddiffiniad cyfreithiol yn yr offeryn statudol fydd yn gweithredu Rheoliadau AEA. Bydd hyn yn rhoi mwy o eglurder a chydnerthedd i'r diffiniad.

<u>**Y Cynnig**</u>:
**Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ychwanegu diffiniad o dir lled naturiol, sy'n adlewyrchu terminoleg canllawiau AEA a chynllun amaeth-amgylcheddol Glastir, i Reoliadau AEA.**

<u>**Prosiect tir heb ei drin:**</u>

7.8. Gall y cysyniad o dir heb ei drin achosi dryswch yng Nghymru oherwydd y ffaith syml y bydd y rhan fwyaf o'r tir wedi bod yn destun ymyrraeth ddynol i ryw raddau ac wedi cael ei ffermio ar ryw adeg.

7.9. Fodd bynnag, gall tir na ffermiwyd yn ddwys ers nifer o flynyddoedd newid yn ôl i fod yn dir yr ystyrir ei fod yn lled naturiol, neu i gyflwr heb ei drin, cyn belled â'i fod yn bodloni'r diffiniad a amlinellir yn yr adran flaenorol.

7.10. Os bydd prosiect sy'n amcanu at gynyddu cynhyrchiant amaethyddol y tir yn cael ei gynnig ar ardal o'r fath, bydd Rheoliadau AEA yn gymwys a bydd raid i'r ardal honno fod yn destun cais sgrinio.

7.11. Ar hyn o bryd mae Rheoliadau AEA yn cynnwys y diffiniad canlynol;

> “mae prosiect tir heb ei drin yn golygu prosiect er mwyn cynyddu cynhyrchiant amaethyddol tri heb ei drin neu ardal led naturiol, ac mae’n cynnwys prosiectau er mwyn cynyddu cynhyrchiant amaethyddol tir o’r fath i lefel sydd yn is na’r norm”.

Er bod y diffiniad yn gywir ac nad yw Llywodraeth Cymru yn cynnig ei newid, mae angen mwy o eglurder o ran beth mae’r diffiniad yn gymwys iddo.

| |
|---|
| **<u>Y Cynnig:</u>**<br>**Er mwyn darparu eglurder ac osgoi amwysedd mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ailenwi’r diffiniad yn ‘Brosiect ar Dir Lled Naturiol a/neu Dir Heb ei Drin’.** |

***Cwestiwn 1***

***A ydych yn cytuno gyda’r cynnig i ychwanegu diffiniad o dir lled naturiol i Reoliadau AEA? Os nad, nodwch pam os gwelwch yn dda.***

***Cwestiwn 2***

**A ydych yn cytuno â’r cynnig i addasu’r diffiniad o brosiectau tir heb ei drin i ‘Brosiect ar Dir Lled Naturiol a/neu Dir Heb ei Drin’? Os nad, nodwch pam os gwelwch yn dda.**

## 8. Trothwyau

8.1. Mae Cyfarwyddeb AEA yn rhoi’r opsiwn i Aelod Wladwriaethau osod isafswm trothwyau ar gyfer prosiectau gwella tir, cyn belled â'u bod ar lefel briodol ac nad ydynt yn niweidio’r amgylchedd lleol.

8.2. Yn hanesyddol, nid yw Llywodraeth Cymru wedi pennu trothwy yn y gyfundrefn AEA (ac eithrio ar gyfer ailstrwythuro gwledig). Maint cyfartalog fferm yng Nghymru yw 46.41 ha[1] a maint cyfartalog prosiect a ystyrir o dan Reoliadau AEA yw 16.4 ha.

8.3. Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried 1474 o achosion sgrinio a gorfodi. O’r rhain, roedd 312 yn llai na 2 ha. Roedd y rhan fwyaf o’r prosiectau a ystyriwyd rhwng 2 a 5 ha (cyfanswm o 406). Mae’r data ystadegol yn amlygu y gallai pennu trothwy ar gyfer cyfundrefn amaethyddol AEA, hyd yn oed os y’i pennir ar lefel cymharol isel, danseilio polisi amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth Cymru oherwydd byddai nifer o’r prosiectau a gynhelir yn dal yn llai na’r trothwy a bennwyd ar gyfer gweithredu gofynion y ddeddfwriaeth.

---

[1] Llywodraeth Cymru: Ffeithiau a Ffigyrau Ffermio http://gov.wales/docs/statistics/2016/160628-farming-facts-figures-2016-en.pdf

8.4. Wrth benderfynu sut mae diffinio arwyddocâd a ble mae pennu trothwyau, mae angen i Lywodraeth Cymru hefyd ystyried dyfarniadau diweddar y Llys Cyfiawnder Ewropeaidd (Achos C-392/96: Y Comisiwn v Iwerddon). Mae'r rhain yn dangos, er y gall Aelod Wladwriaethau bennu trothwyau fel sy'n addas iddyn nhw, bod raid iddynt gydymffurfio â'r rheolau canlynol:

- *ni ddylid pennu trothwyau mor uchel fel bod y rhan fwyaf o'r prosiectau sy'n is na'r trothwyau yn debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd;*
- *ni ddylai trothwyau ein hatal rhag cymhwyso AEA mewn achosion pan fo effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd yn debygol;*
- *mae'n rhaid i drothwyau ein gwarchod rhag y posibilrwydd y gall nifer o brosiectau bach gyda'i gilydd achosi effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd;*
- *mae'n rhaid i drothwyau ystyried 'maint' prosiect, ei 'leoliad' a 'natur y prosiect';*
- *mae'n rhaid i drothwyau ofalu nad yw person yn gallu mynd o gwmpas y trothwy drwy gynnal prosiect mawr fesul tamaid.*

8.5. Ym marn Llywodraeth Cymru, byddai pennu trothwyau o dan gyfundrefn AEA ym maes amaeth yn groes i arferion ffermio yng Nghymru ble mae nifer o ffermydd bach teuluol yn dal i fodoli. Gallai pennu trothwyau achosi i rai prosiectau *arwyddocaol* beidio cael eu cynnwys yng nghwmpas y ddeddfwriaeth, gan effeithio'n negyddol ar amgylchedd Cymru a chyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i wireddu amcanion Rheoliadau AEA. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal y status quo a pharhau ag ymagwedd 'dim trothwy' ynglŷn â'r polisi.

***Cwestiwn 3***

***Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu polisi dim trothwy o dan y gyfundrefn AEA. A ydych yn cytuno gyda'r polisi hwn?***

## 9. Sgrinio

9.1. Mae sgrinio yn weithdrefn a ddefnyddir i benderfynu a yw prosiect tir lled naturiol neu heb ei drin arfaethedig yn debygol o effeithio'n arwyddocaol ar yr amgylchedd. Dylai ddigwydd yn gynnar yn ystod proses ddylunio'r prosiect.

9.2. Ar hyn o bryd yng Nghymru, defnyddir proses dau gam wrth ystyried ceisiadau sgrinio. Mae cam un yn asesiad desg cychwynnol sy'n defnyddio data sydd ar gael megis ffotograffiaeth o'r awyr. Pan fo angen, mae cam dau yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru weithio â chyrff perthnasol eraill megis Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Awdurdodau Lleol ac Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru er mwyn datblygu mwy ar yr ymateb i'r cais sgrinio. Gall hynny gynnwys ymweliadau â'r safle.

9.3. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig bod Tirfeddianwyr a Rheolwyr Tir yn disgrifio unrhyw gamau lliniaru fydd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer prosiectau graddfa fawr fydd yn rhan o gylch gwaith Rheoliadau AEA. Byddai'r gofyniad hwn yn sicrhau gwell rheoli risg a chofnodion parod ynglŷn â mesurau lliniaru.

9.4. Amcan Llywodraeth Cymru yw cymhwyso'r cynnig newydd yn gymesur, neu fel arall mae gan hyn y potensial i gynyddu'r gost i ymgeiswyr. Ar hyn o bryd, mae'r cais sgrinio am ddim gan fod Llywodraeth Cymru yn talu am y gost ac ni chynigir bod hynny'n cael ei newid.

9.5. Felly byddai Llywodraeth Cymru ond yn cyflwyno'r gofyniad newydd yma ar gyfer prosiectau graddfa fawr, ac felly ni fyddai hynny'n gymwys i'r rhan fwyaf o'r ceisiadau sgrinio a ystyrir gan gyfundrefn amaethyddol AEA. Ers 2002 mae Llywodraeth Cymru ond wedi delio â 44 o achosion oedd yn fwy na 50 ha, sy'n tua 4% o'r holl geisiadau sgrinio a'r achosion gorfodi.

9.6. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gofyn i ymgeiswyr ddarparu manylion mewn perthynas ag effaith y prosiect yn ogystal ag unrhyw gamau lliniaru arfaethedig, er enghraifft, ynglŷn â phrosiectau ailstrwythuro mawr. Mae'n annhebygol y bydd hynny'n newid y broses AEA bresennol ac yn effeithio ar weithrediadau a phrosiectau bach.

9.7. Bydd penderfyniadau sgrinio yn cael eu gwneud ar ôl i'r holl dystiolaeth angenrheidiol gael ei choladu a'i hystyried gan Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae cais naill ai'n cael ei gymeradwyo (annhebygol o gael effaith amgylcheddol arwyddocaol) neu gofynnir am DA (tebygol o gael effaith amgylcheddol arwyddocaol). Gallai'r broses yma fod yn fwy hyblyg petai Gweinidogion Cymru'n gallu atodi amodau i'r penderfyniadau sgrinio neu roi caniatâd i ran yn unig o'r prosiect. Byddai'r newid hwn yn lliflinio'r broses sgrinio a gallai o bosibl leihau nifer yr achosion pan fo Gweinidogion Cymru angen gofyn am DA. Byddai'r newid yn aliniedig ag amcanion y Gyfarwyddeb AEA ddiwygiedig oherwydd byddai'n lleihau baich gweinyddol a byddai hefyd yn helpu i gymhwyso'r gofynion rheoleiddiol mewn modd cymesur.

***Cwestiwn 4***

***A ydych yn cytuno gyda'r cynnig i ganiatáu Gweinidogion Cymru i ofyn i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth am gamau lliniaru yn ystod y cam sgrinio yn achos prosiectau graddfa fawr, os penderfynir bod angen hynny?***

***Cwestiwn 5***

***A ydych yn cytuno â'r cynnig i alluogi Gweinidogion Cymru i roi caniatâd sgrinio i ran yn unig o brosiect a/neu atodi amodau penodol i'r penderfyniadau sgrinio?***

## 10. Cwmpasu

10.1. Ar ôl derbyn penderfyniad sgrinio bod prosiect yn brosiect arwyddocaol, ond cyn gwneud cais am ganiatâd, gall yr ymgeisydd ofyn i Weinidogion Cymru fynegi eu barn ynglŷn â pha wybodaeth a ddylid ei darparu yn y DA.

10.2. Pan fo Llywodraeth Cymru yn derbyn cais cwmpasu ysgrifenedig, gwneir gwiriadau er mwyn rhoi eglurder i fanylion y prosiect. Pan fo digon o wybodaeth am y prosiect wedi ei derbyn, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â chyrff statudol eraill fel bo'n briodol (er enghraifft CNC ac Awdurdodau Lleol). Bydd angen i'r cyrff perthnasol fynegi eu barn ynglŷn ag effeithiau tebygol y prosiect a beth ddylid ei gynnwys mewn DA. Ar hyn o bryd, mae hwn yn wasanaeth y mae Llywodraeth Cymru yn talu amdano'n gyfan gwbl, ac ni chynigir bod hynny'n cael ei newid.

10.3. Mae Cyfarwyddeb AEA 2014 wedi diwygio'r broses gwmpasu ac wedi cyflwyno gofyniad gorfodol i ymgeiswyr seilio eu DA ar y farn gwmpasu os gofynnwyd am un. Pwrpas y newid hwn yw rhoi mwy o bendantrwydd i'r ymgeisydd wrth baratoi eu DA yn ogystal â'u helpu i ddeall y materion amgylcheddol allweddol y mae angen i'r datganiad ganolbwyntio arnynt, sy'n lleihau'r consyrn y bydd efallai angen iddynt gynnwys pynciau ychwanegol ar ôl cyflwyno eu cais. Ystyrir bod cyflwyno'r gofyniad gorfodol hwn yn newid cadarnhaol i'r Gyfarwyddeb AEA.

10.4. Oherwydd y bydd cwmpasu yn parhau i fod yn opsiwn dewisol, ni fydd y gofyniad newydd yn gymwys i achosion pan fo'r ymgeisydd yn penderfynu peidio â gwneud cais am farn cwmpasu.

10.5. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gefnogi ymgeiswyr sydd angen cyflwyno DA, a dyna'r rheswm pam y cynigir cwmpasu am ddim yn ystod y cam hwn.

10.6. Ers 2002 mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am DA mewn tua 7% o'r holl achosion a ystyriwyd. Fodd bynnag, nid oes yr un DA wedi cael eu paratoi o dan Reoliadau AEA, a hynny mae'n debyg oherwydd nad oedd maint y prosiectau yn cyfiawnhau'r gost sy'n gysylltiedig â pharatoi'r datganiad. Hefyd, efallai bod prosiectau wedi cael eu haddasu yn ystod y cam sgrinio, yn dilyn trafodaeth â staff Llywodraeth Cymru. Am y rheswm hwn, credir na fydd y newid bychan yma yn arwain at ddim effaith ymarferol ac na fydd yn effeithio'n arwyddocaol ar y ffordd y gweithredir y gyfundrefn yn achos y rhan helaeth o'r ymgeiswyr.

**Cwestiwn 6**

***Rhowch unrhyw sylwadau yr ydych yn dymuno mewn perthynas â'r gofyniad gorfodol newydd hwn.***

## 11. Datganiad Amgylcheddol

11.1. Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu bod prosiect gwella amaethyddol yn brosiect arwyddocaol, mae'n rhaid i'r ymgeisydd gael caniatâd gan Weinidogion Cymru cyn cychwyn ar unrhyw waith.

11.2. Os yw ymgeisydd wedi gwneud cais am farn cwmpasu cyn ceisio caniatâd, er mwyn penderfynu a roddir caniatâd neu beidio, gall Weinidogion Cymru ofyn am DA pan fo angen mwy o dystiolaeth i ategu'r gwaith arfaethedig.

11.3. Pwrpas DA yw disgrifio effeithiau amgylcheddol posibl prosiect ar dir lled naturiol neu dir heb ei drin a/neu newidiadau i strwythur daliadau tir gwledig. Gellir meddwl am DA fel adroddiad manwl ar yr effeithiau hyn a dylai ddarparu digon o wybodaeth i bartïon â buddiant wneud penderfyniad gwrthrychol ar sail gwybodaeth ynglŷn ag effeithiau unrhyw brosiect a gynhelir ar y tir.

11.4. Mae Cyfarwyddeb AEA 2014 yn cyflwyno gofyniad newydd mewn perthynas â'r rhai sy'n cynhyrchu ac yn ystyried DAau. Er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad hwn:

- mae'n rhaid i'r datblygwr sicrhau bod eu DA yn cael ei baratoi gan arbenigwyr cymwys; a
- mae'n rhaid i'r Awdurdod Cymwys sicrhau bod ganddo, neu fod ganddo fynediad i, ddigon o arbenigedd i archwilio'r DA.

11.5. Felly, rydym yn cynnig cynnwys gofyniad yn Rheoliadau AEA bod rhaid paratoi DA gan unigolion sydd, ym marn Gweinidogion Cymru, â digon o arbenigedd, yn rhinwedd eu cymwysterau neu arbenigedd, er mwyn sicrhau cyflawnder ac ansawdd DA.

11.6. Mae'r derminoleg a ddefnyddir mewn perthynas â'r awdurdod cymwys yn wahanol. Ystyrir bod gan y rhan fwyaf o unigolion sy'n gwneud penderfyniadau ddigon o arbenigedd yn eu sefydliadau i archwilio'r DA. Hefyd bydd ganddynt sylwadau'r cyrff ymgynghori statudol, yn cynnwys CNC.

11.7. Felly, gan mai Gweinidogion Cymru yw'r Awdurdod Cymwys at ddibenion cyfundrefn amaeth AEA, rydym yn cynnig cynnwys gofyniad yn Rheoliadau AEA bod Gweinidogion Cymru yn sicrhau bod ganddynt fynediad i ddigon o arbenigedd i archwilio'r DA.

11.8. Un o amcanion y gyfundrefn AEA yw sicrhau bod y cyhoedd yn cael cyfleoedd cynnar ac effeithiol i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau. Er mwyn gwireddu hynny, ar ôl cyflwyno cais am ganiatâd datblygu, mae'r cais a'r DA yn cael eu cyhoeddi. Mae hyn yn rhoi cyfle i gyrff ymgynghori statudol a'r cyhoedd fynegi eu safbwyntiau ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig a'r DA. Mae'n rhaid ystyried y DA, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r penderfyniad, ac unrhyw sylwadau ynglŷn â'r mater, cyn penderfynu rhoi caniatâd datblygu neu beidio.

11.9. Er mwyn gwella cyfranogion cyhoeddus, mae Cyfarwyddeb AEA 2014 wedi diwygio'r gofynion cyhoeddusrwydd a chyfranogiad. Mae'r Erthygl 6(2) a adolygwyd yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysu'r cyhoedd yn electronig ynglŷn â'r cais a sut i gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau, mae Erthygl 6(5) yn ei gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth berthnasol (cais a'r DA) fod ar gael hefyd yn electronig drwy borth canolog o leiaf neu bwyntiau mynediad hygyrch, ac mae Erthygl 6(7) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y DA bara am o leiaf 30 diwrnod.

11.10. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig lleihau neu ymestyn y cyfnod ymgynghori 70 diwrnod presennol oherwydd ystyrir bod hynny'n gyfnod rhesymol ar gyfer yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, cynigir y bydd yr holl fanylion perthnasol yn cael eu cyhoeddi ar-lein yn unig ac nad ydynt yn cael eu hargraffu mewn papur newydd. Y rhesymeg dros gyhoeddi ar-lein yn unig yw y gall yr holl bartïon â buddiant gael mynediad am ddim i achosion. Gall argraffu mewn papur newydd olygu y gall parti â buddiant golli'r cyfle i wybod am yr achos ac i roi sylwadau os nad yw'n darllen y cyhoeddiad penodol hwnnw.

11.11. Pan roddir caniatâd ar ôl ystyried DA, mae Cyfarwyddeb AEA 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fonitro effaith y prosiect. Felly, bydd Rheoliadau AEA yn cael eu diwygio er mwyn cynnwys darpariaeth newydd fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflawni'r ddyletswydd hon.

11.12. Fel yr eglurwyd yn y paragraff blaenorol, dim ond mewn ychydig iawn o achosion y gofynnir am DA, a hyd yma nid oes yr un DA wedi cael ei baratoi o dan Reoliadau AEA. Felly, disgwylir mai bychan iawn fydd effaith gyffredinol y newidiadau arfaethedig a amlinellir uchod.

***Cwestiwn 7***

***Rhowch unrhyw sylwadau yr ydych yn dymuno mewn perthynas â'r gofyniad gorfodol newydd ynglŷn â defnyddio arbenigwr cymwys ar gyfer cynhyrchu DA.***

**Cwestiwn 8**
***Beth yw eich barn ar y cynnig i ymgynghori â'r cyhoedd ar DA ar-lein yn unig?***

**Cwestiwn 9**
***Pan roddir caniatâd ar ôl ystyried DA, mae Cyfarwyddeb AEA 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fonitro effaith y prosiect, ac mae hynny'n rhoi mwy o gyfrifoldeb ar yr Awdurdod Rheoli.***

***Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ymweld â'r prif safle dan sylw er mwyn sicrhau bod y prosiect wedi'i gwblhau fel yr amlinellir hynny yn y DA. Os bydd angen, bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu rhaglen fonitro allai bara am nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd hynny ond yn gymwys i brosiectau cymhleth a phrosiectau graddfa fawr, megis prosiectau ailstrwythuro neu gynlluniau draenio newydd.***

***A ydych yn cytuno gyda'r ymagwedd hon? Rhowch fanylion am unrhyw gynigion eraill.***

## 12. Hysbysiadau Gorfodi

12.1. Fel arfer rhoddir Hysbysiadau Adfer am gyfnod cymharol hir, hyd at 10 mlynedd. Mae hyd hysbysiadau o'r fath yn seiliedig ar yr amser sydd ei angen i natur adfer hun ar ôl gwneud gwaith gwella amaethyddol niweidiol, megis aredig, ail hadu gyda rhywogaethau wedi'u gwella a defnyddio gwrtaith. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi sefydlu camau diogelu er mwyn sicrhau bod Hysbysiadau Adfer a roddir gan Weinidogion Cymru yn arwain at yr effeithiau a ddymunir. Ar brydiau, mae angen newid y gyfundrefn reoli a nodir yn yr Hysbysiad er mwyn bodloni'r deilliannau gofynnol. Fel arfer, gwneir hynny â chytundeb y tirfeddiannwr, a gall hynny helpu i fyrhau cyfnod yr Hysbysiad. Yn yr achosion hyn, mae'n rhaid rhoi Hysbysiad newydd. Ar brydiau, mae safleoedd yn adfer eu hunain yn gyflymach neu'n arafach na'r cyfnod a nodir yn yr Hysbysiad.

12.2. Er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r broses, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig rhoi mwy o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru i ddiwygio a therfynu Hysbysiadau Adfer. Byddai'r ddarpariaeth hon yn cael ei defnyddio'n gymesur ac mewn achosion  pan fo angen newid yr hysbysiad gwreiddiol er mwyn sicrhau mai'r gyfundrefn reoli tir a ddefnyddir yw'r un fwyaf addas ar gyfer y tir o dan sylw. Hefyd, byddai gan Weinidogion Cymru'r pŵer i derfynu hysbysiadau yn gynnar cyn dyddiad dod i ben yr Hysbysiad Adfer, neu ymestyn y cyfnod Adfer heb yr angen i roi Hysbysiad newydd.

12.3. Byddai newid o'r fath yn fuddiol o ran gwireddu'r amcan cyffredinol o warchod yr amgylchedd, tra'n sicrhau bod gweithdrefnau presennol yn fwy hyblyg a syml, gan leihau biwrocratiaeth.

***Cwestiwn 10***
***A ydych yn cytuno â'r cynnig i roi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio, ymestyn neu derfynu Hysbysiadau Adfer?***

## 13. Gweithdrefnau Apelio

13.1. Ar hyn o bryd mae Rheoliadau AEA yn darparu mecanwaith i Dirfeddianwyr/Rheolwyr Tir apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn penderfyniadau sgrinio a chaniatáu, ac unrhyw hysbysiadau statudol a roddir o dan Reoliadau AEA, megis Hysbysiadau Stopio ac Adfer.  Mae gan Weinidogion Cymru'r pŵer i benderfynu ar apeliadau neu i benodi unigolyn i weithredu'r swyddogaeth hon ar eu rhan.  Nid yw'r unigolyn y gall Gweinidogion Cymru ei benodi yn cael ei nodi yn Rheoliadau AEA.

13.2. Ar hyn o bryd, mae'r broses statudol a nodir gan Reoliadau AEA i bob pwrpas yr un fath ar gyfer apeliadau yn erbyn Hysbysiadau Stopio ac Adfer ac apeliadau yn erbyn penderfyniadau sgrinio a chaniatáu. Fodd

bynnag, mae yna wahaniaethau bychan ond pendant sy'n gwneud i'r weithdrefn apelio bresennol fod yn fwy cymhleth. Amcan Llywodraeth Cymru yw lliflinio a harmoneiddio'r mecanwaith apelio ar gyfer pob math o apeliadau, er mwyn sicrhau fod y broses yn haws ei deall a'i dilyn, a rhoi mwy o gysondeb i'r gyfundrefn. Nod Llywodraeth Cymru yw gweithredu proses apelio sy'n gydnerth, tryloyw a chost effeithiol.

13.3. Yn benodol, mae gan ymgeiswyr 28 diwrnod i apelio yn erbyn Hysbysiadau ar ôl dyddiad rhoi hysbysiad, a 3 mis i apelio yn erbyn penderfyniadau sgrinio a chaniatáu ar ôl dyddiad y penderfyniad. Er mwyn cydamseru'r broses, cynigir pennu cyfnod apelio o 28 diwrnod ar gyfer yr holl fathau o apeliadau, sy'n golygu y bydd raid i ymgeiswyr apelio o fewn 28 diwrnod ar ôl derbyn yr Hysbysiad statudol mewn perthynas â phenderfyniad sgrinio/caniatáu. Oherwydd bod yna gysylltiad agos rhwng Hysbysiadau a statws ecolegol y tir a'i allu i adfer ei hun, a bod angen i hynny ddigwydd yn sydyn, ni fyddai'n briodol ymestyn y cyfnod apelio y tu hwnt i 28 diwrnod ar gyfer y rhain.

13.4. Mewn perthynas â phenderfyniad sgrinio a chaniatáu, byddai lleihau'r cyfnod apelio yn lleihau'r amser y byddai statws y tir yn destun dadl ac yn aneglur. Er bod y gostyngiad arfaethedig i'r cyfnod apelio yn gymharol sylweddol, bydd gallu ymgeiswyr i gyflwyno tystiolaeth ychwanegol ar ôl cyflwyno apêl yn aros yr un fath ag y mae o dan y broses apelio bresennol.

13.5. Mewn achosion apelio diweddar, mae Gweinidogion Cymru wedi penodi Arolygydd Cynllunio i benderfynu ar yr achos ar eu rhan, neu i roi argymhelliad i Weinidogion Cymru ar yr achos perthnasol. Dewiswyd yr Arolygiaeth Gynllunio (PINS) i ddelio â'r apeliadau AEA oherwydd ystyriwyd bod gan yr Arolygiaeth yr arbenigedd angenrheidiol o ddelio ag apeliadau ac achosion gorfodi, yn cynnwys delio ag ymchwiliadau cyhoeddus.

13.6. Cynigir bod y pŵer i benodi unigolyn addas i weithredu ar ran Gweinidogion Cymru yn cael ei gadw mewn unrhyw Reoliadau AEA a ddiwygir. Yn y dyfodol, gall yr unigolyn hwnnw fod yn Arolygydd Cynllunio neu'n berson addas arall, cyn belled â bod yr unigolyn yn bodloni'r meini prawf o fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac yn meddu ar yr arbenigedd technegol angenrheidiol ar gyfer ystyried apeliadau o dan Reoliadau AEA.

13.7. O dan Reoliadau AEA, gall yr unigolyn a benodir naill ai benderfynu ar yr apêl neu roi argymhelliad i Weinidogion Cymru, dim ond os bydd yr apêl yn cael ei ystyried gan wrandawiad neu ymchwiliad cyhoeddus. Os bydd yr apêl yn dilyn gweithdrefn ysgrifenedig, bydd yn rhaid i'r person a benodir benderfynu ar ganlyniad yr apêl. Er mwyn bod yn fwy cyson yn y dyfodol, cynigir cyflwyno'r posibilrwydd i'r unigolyn a benodir roi argymhelliad i Lywodraeth Cymru yn y ddwy senario.

13.8. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig lliflinio'r broses drwy alinio'r gwahanol fathau o apeliadau o dan un weithdrefn. Byddai hynny'n cael gwared â dyblygu yn y ddeddfwriaeth ac yn sicrhau bod y broses yn

haws ei deall a’i dilyn, gan gael gwared ag unrhyw amwysedd i’r apelyddion.

13.9. I grynhoi, cynigir y bydd yr holl brosesau apelio o dan Reoliadau AEA yn cydymffurfio â’r canlynol:

- Bydd angen cyflwyno apeliadau o fewn amser penodol, sef 28 diwrnod ar gyfer pob apêl;

- Gall Gweinidogion Cymru benodi unigolyn i weithredu ar eu rhan;

- Gall yr unigolyn a benodir benderfynu ar yr apêl neu roi argymhelliad i Weinidogion Cymru;

- Gellir penderfynu ar apeliadau drwy weithdrefn ysgrifenedig neu drwy gyfrwng gwrandawiad llafar/ymchwiliad cyhoeddus;

- Mae’n rhaid i bob apêl nodi seiliau’r apêl yn unol â Rheoliadau AEA.

***Cwestiwn 11***

***A ydych yn fodlon â’r cynnig i liflinio gweithdrefnau apelio Rheoliadau AEA?***

***Cwestiwn 12***

***A ydych yn cytuno â’r cynnig i bennu cyfnod apelio o 28 diwrnod ar gyfer yr holl fathau o apeliadau?***

***Cwestiwn 13***

***A oes gennych unrhyw sylwadau ar y broses apelio bresennol?***

**Unrhyw Sylwadau Eraill**

***Cwestiwn 14***

***Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol mewn perthynas â’r newidiadau arfaethedig i Reoliadau AEA. Os oes gennych unrhyw bryderon eraill nad ydym wedi delio â hwy yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i’w nodi:***

**Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yn berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os yw'n well gennych fod eich ymateb yn aros yn ddienw, ticiwch yma os gwelwch yn dda: ☐